

Sul Cymorth Cristnogol

Darllen: Nehemeia 6:15

Iddew oedd Nehemeia oedd yn gweithio fel bwtler ym mhalas Artaxerxes, brenin Persia. Roedd yn swydd foethus, felfedaidd. Un diwrnod, daeth criw o Jwdea i ymweld â'r palas ar ôl teithio cryn fil o filltiroedd i gyrraedd palas y brenin. Hanai, brawd Nehemeia, ddaeth at ddrws y palas. Nid taith i weld y brenin oedd hon ond taith i weld y bwtler. Ar ôl i'r ddau sgwrsio, holodd Nehemeia sut oedd hi yn yr hen wlad. Cafodd ateb a'i cynhyrfodd; roedd y bobl a adawyd ar ôl wedi'u dadrithio a'r ddinas yn garnedd. Roedd y mur wedi'i ddryllio, 'a llosgwyd ei phyrth â tân' (Nehemeia 1:3). Cynhyrfwyd Nehemeia, a chofiodd am ei wreiddiau. Cofiodd hefyd am ei Dduw. Gwnaeth gais i'r brenin i gael mynd yn ôl i'r hen wlad i gynorthwyo'r bobl, a gadawodd hwnnw iddo fynd.

Nid dychwelyd i alarnadu am wlad ei hynafiaid a wnaeth Nehemeia. Aeth yn ôl a defnyddio'i holl ddoniau i ail godi'r hen wlad ar ei thraed. Roedd yr olygfa a welodd wedi'i frawychu, 'Y mae Jerwsalem yn adfeilion a'i phyrth wedi eu llosgi â tân' (Nehemeia 2:17). Ond roedd ysbryd hyderus, beiddgar yn perthyn i Nehemeia. Nid gadael i'r olygfa ei lethu a wnaeth hwn ond torchi'i lewys a bwrw iddi: 'adeiladwn fur Jerwsalem rhag inni fod yn waradwydd mwyach' (2:17). Defnyddiodd Nehemeia ei ddoniau fel arweinydd a chasglu'r adeiladwyr ynghyd. Er iddo wynebu gwrthwynebiad, ymlaen yr aeth gyda'r gwaith. Roedd yr arweinydd dawnus hwn yn sicr o'i ffordd, 'Bydd Duw y nefoedd yn rhoi llwyddiant i ni, ac yr ydym ninnau, ei weision ef, yn mynd ati i adeiladu' (2:20). Ond yn y man mae'r anochel yn digwydd, ac meddai'r bobl, 'Pallodd nerth y cludwyr, ac y mae llawer o rwbel; ni allwn byth ail godi'r mur ein hunain' (4:10). Ond nid dyna ddiwedd y stori, 'Gorffennwyd y mur mewn deuddeg diwrnod a deugain ... yr oedd y peth yn rhyfeddol yn eu golwg, a daethant i ddeall mai trwy gymorth ein Duw y cafodd y gwaith hwn ei wneud' (6:15–16). Sut felly y cafodd gwaith mor enfawr ei gwblhau mewn llai na

deufis? I fod yn berffaith glir, wnaethon nhw ddim cwblhau'r gwaith ar eu pennau eu hunain. Cael cymorth wnaethon nhw: cymorth Duw. Defnyddio'i ddoniau fel trefnydd, ac fel llywodraethwr, wnaeth Nehemeia. Ac y mae o hyd angen dynion sydd â'r doniau hyn, sef pobl sy'n barod i wireddu breuddwydion mawr a bwrw iddi. Cefnu ar foethusrwydd y palas ym Mhersia oedd hanes Nehemeia, am fod ei wlad a'i wreiddiau'n galw arno i ail godi'r hen ddinas wedi i'r Babiloniaid ei sarnu. Ar hyd a lled y byd heddiw, mae ein cyd-ddynion mewn angen. Mae problem newyn yn ein harswydo. Beth fedrwn ni ei wneud? Er bod tasg aruthrol yn wynebu Nehemeia, mynd ymlaen â'r gwaith a wnaeth. Bwrw iddi. Roedd yn barod i wynebu'r cyfan a meithrin ei holl ddoniau. Ond cofiwn fod Nehemeia wedi gweddïo ac wedi cyflwyno'i ddoniau, a'r dasg oedd yn ei wynebu, i Dduw. Yn ystod yr wythnos hon gweddïwn ar Dduw i'n helpu i ddefnyddio'n doniau i helpu'n cyd-ddyn ym mhedwar ban byd.

Myfyrdod pellach:

Roedd Nehemeia'n teimlo i'r byw am gyflwr ei bobl. Beth amdanom ni?

Pa nodweddion ym mywyd Nehemeia fyddai o les i'r Eglwys heddiw?